# Trefniadau asesu statudol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2008–2009

Cyfnod Allweddol 3

**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Trefniadau asesu statudol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2008–2009

## Cyfnod Allweddol 3

**Cynulleidfa**

Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau addysg lleol, cyrff cenedlaethol sydd a diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn gosod y gofynion statudol ar gyfer asesiad athrawon yn y flwyddyn ysgol 2008–2009.

**Camau i'w cymryd**

Dylai athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, sicrhau bod y gofynion a geir yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu o fewn y dyddiadau a nodir.

**Gwybodaeth bellach**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@wales.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: dcells1@prolog.uk.com

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Seilir y trefniadau asesu ar Y Gorchymyn Trefniadau Asesu Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) ar gyfer Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (Cyfnod Allweddol 1) 2002, Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru), Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgyblion) (Cymru) 2004, yn unol â'r diwygiadau; a'r Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgyblion) (Cymru) 2004.

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: CAD/SM/0022
ISBN: 978 0 7504 4900 7
A-EAC-02-01-qA704822/1/PG
© Hawlfraint y Goron Medi 2008

# Cynnwys


Rhagarweiniad, gan gynnwys datblygiadau newydd 2

Gofynion cyffredinol 4

Asesiad athrawon 7

Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 12

**Atodiad A**
Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon 14

**Atodiad B**
Datgymhwyso ac addasu 18

**Atodiad C**
Rhifau ffôn a chyfeiriadau cyswllt defnyddiol 23

# Rhagarweiniad

Mae'r llyfryn hwn yn disodli fersiwn 2008 a holl fersiynau blaenorol y llyfryn *Trefniadau asesu ac adrodd statudol* Cyfnod Allweddol 3. Mae'n darparu gwybodaeth bwysig ynglŷn â'r trefniadau asesu statudol yn y flwyddyn ysgol 2008/09. **Bydd gwybodaeth fanwl am drefniadau casglu data cenedlaethol a threfniadau adrodd yn cael ei hanfon i ysgolion mewn llyfryn ar wahân yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol.**

Mae digon o gopïau o'r llyfryn wedi'u hanfon i ysgolion ar gyfer y pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr, cydgysylltydd asesu Cyfnod Allweddol 3, cydgysylltydd anghenion addysgol ychwanegol ac arweinwyr pwnc. Bydd yn galluogi ysgolion a thimau pwnc i gynnwys y trefniadau asesu statudol yn eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn. Gellir cael mwy o gopïau o'r llyfryn hwn yn rhad ac am ddim oddi wrth Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ar 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg) a 0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg) neu gellir ei lawrlwytho o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau.

## Datblygiadau newydd

### Asesiad athrawon

Mae APADGOS wedi cyflwyno trefniadau a fydd yn cynorthwyo ysgolion i gryfhau a chadarnhau eu hasesiadau athrawon. O'r flwyddyn ysgol 2007/08, mae'r gofynion wedi cynnwys yr angen i ysgolion sicrhau bod gweithdrefnau mewnol cadarn ganddynt ar gyfer safoni a chymedroli gwaith dysgwyr.

O'r flwyddyn ysgol gyfredol (2008/09), mae'n ofynnol i ysgolion cynradd ac uwchradd gael trefniadau cymedroli grŵp clwstwr hefyd er mwyn cefnogi a chryfhau asesiadau athrawon a chysylltiadau rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3. Dylai cymedroli grŵp clwstwr Cyfnod Allweddol 2 a 3 wella'r trefniadau pontio presennol rhwng athrawon a throsglwyddo gwybodaeth am gyrhaeddiad dysgwyr. Dylai hyn ymwneud ag athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd yn cytuno ar yr asesu er mwyn gwella dibynadwyedd yr wybodaeth am gyrhaeddiad dysgwyr unigol (gweler tudalen 5 am fanylion pellach).

Cafodd canllawiau wedi'u diweddaru ar gysondeb mewn asesiad athrawon, gan gynnwys astudiaethau achos: *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*, eu darparu i bob ysgol gan APADGOS yn nhymor y gwanwyn 2008, i gynorthwyo ysgolion wrth iddynt gynllunio ac adolygu'r trefniadau presennol.

Dechreuwyd cyflwyno cymedroli allanol o dystiolaeth sampl mewn ysgolion yn y flwyddyn ysgol 2006/07. Hyd yma, mae adrannau pynciau craidd a thua 25 y cant o adrannau pynciau allgraidd (o fewn ysgolion a gynhelir) wedi derbyn adroddiadau gan gymedrolwyr allanol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu cymorth canolbwyntiedig i ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion. Dylai gweithredu cenedlaethol ar gyfer yr holl adrannau pynciau allgraidd fod wedi'i gwblhau erbyn haf 2010.

O fis Medi 2008, bydd dilyswyr allanol hefyd yn dechrau ymweld ag ysgolion i ddilysu systemau a gweithdrefnau ar gyfer asesiad athrawon. O fewn y cyfnod Medi 2008 i Orffennaf 2010, dylai pob ysgol Cyfnod Allweddol 3 gael un ymweliad gan y dilyswyr ynghyd ag adroddiad adborth dilyswyr.

Yn ystod Medi 2008, bydd pob ysgol sy'n addysgu ac yn asesu dysgwyr o fewn Cyfnod Allweddol 3 wedi derbyn manylion am y model ar gyfer ymweliadau dilyswyr a'r meini prawf y bydd dilyswyr yn eu defnyddio er mwyn rhoi gwybod i'r ysgolion cyn i'r dilyswyr allanol gysylltu â nhw.

### Y cwricwlwm ysgol diwygiedig

O 1 Medi 2008 dechreuwyd gweithredu'r cwricwlwm ysgol diwygiedig fesul cam. Mae'n cael ei weithredu ym Mlynyddoedd 7 ac 8 yn y flwyddyn ysgol 2008/09 a Blwyddyn 9 yn y flwyddyn ysgol 2009/10. **Sylwer:** Felly mae cyfeiriadau yn y llyfryn hwn at asesu diwedd cyfnod allweddol statudol yn cyfeirio at y cwricwlwm y dylid ei addysgu i ddisgyblion Blwyddyn 9 yn y flwyddyn ysgol 2008/09, yn hytrach na'r cwricwlwm ysgol diwygiedig.

Yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol, bydd APADGOS yn darparu deunyddiau enghreifftio newydd ar gyfer pob maes pwnc i gefnogi cynllunio dysgu, addysgu ac asesu yn erbyn y cwricwlwm diwygiedig.

### Diwrnodau HMS ychwanegol

Cafodd ysgolion wybod ym mis Mai 2008 y bydd y trefniadau presennol ar gyfer dau ddiwrnod HMS ychwanegol yn parhau yn y blynyddoedd ysgol 2008/09 a 2009/10.

Cânt eu darparu er mwyn cynorthwyo ysgolion i gynllunio ar gyfer y trefniadau statudol newydd a'u gweithredu'n effeithiol. Y bwriad yw y dylid defnyddio'r diwrnodau hyn mewn modd hyblyg er mwyn i'r ysgolion allu eu defnyddio yn y ffordd fwyaf priodol i'w hanghenion unigol a lleol. Bydd y ddarpariaeth HMS yn parhau i gael ei chynnal gan y Gronfa Ysgolion Gwell.

### Fframwaith effeithiolrwydd ysgolion

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar waith ar y cyd ag/rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r trefniadau a nodir yn y llyfryn hwn gefnogi cymunedau dysgu effeithiol fel y'u disgrifir yn y ddogfen fframwaith: *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd* (gwanwyn 2008).

# Gofynion cyffredinol

## Dyletswyddau penaethiaid[1]

Mae'n ddyletswydd ar benaethiaid ysgolion a gynhelir i sicrhau y gweithredir y cwricwlwm cenedlaethol, a'i drefniadau asesu statudol cysylltiedig, yn eu hysgolion[2].

Dylai penaethiaid sicrhau bod eu hysgolion yn cydymffurfio'n llawn â'r trefniadau asesu statudol, fel y'u disgrifir yn y llyfryn hwn ac mewn unrhyw ganllawiau pellach.

## Asesiad athrawon diwedd cyfnod allweddol

Rhaid i benaethiaid:

- benderfynu pa ddisgyblion[3] y dylid eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3
- sicrhau bod cofnod o lefelau asesiad athrawon ar gyfer y disgyblion hyn i gyd, ar gyfer y targedau cyrhaeddiad yn yr holl bynciau gyda mwy nag un targed cyrhaeddiad
- sicrhau bod y lefelau pwnc cyffredinol ar gyfer pob pwnc craidd ac allgraidd, sydd wedi'u seilio ar asesiadau athrawon o dargedau cyrhaeddiad, yn cael eu pennu'n derfynol a'u cofnodi
- cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer casglu data cenedlaethol diwedd cyfnod allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac adrodd i rieni
- darparu adroddiadau ysgrifenedig i rieni[4] ar gynnydd eu plentyn, a chyfleoedd i drafod, o leiaf unwaith y flwyddyn
- atgoffa athrawon am eu dyletswydd gytundebol i weinyddu'r trefniadau asesu.

[1] Trwy gydol y llyfryn hwn, pan gyfeirir at y pennaeth, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol sicrhau bod dyletswyddau'r pennaeth yn cael eu cyflawni gan ei gynrychiolydd enwebedig os yw'r pennaeth yn absennol dros dro neu'n barhaol.

[2] Cyfeiriwch at adran 100(3) o Ddeddf Addysg 2002, erthygl 4 o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004 ac erthygl 4 o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005.

[3] Trwy gydol y llyfryn hwn, pan gyfeirir at bob disgybl, mae'n cyfeirio at y disgyblion hynny sy'n gymwys i'w hasesu ac eithrio'r rhai y mae'r trefniadau wedi cael eu datgymhwyso ar eu cyfer.

[4] Trwy gydol y llyfryn hwn, pan gyfeirir at y termau 'rhiant' a 'rhieni', mae hyn hefyd yn cynnwys pobl eraill gyda chyfrifoldeb rhiant.

## Safoni a chymedroli mewn ysgolion[1]

Rhaid i benaethiaid sicrhau fod:

- systemau a threfniadau cadarn mewn lle ar gyfer pob pwnc, ac o fewn yr ysgol gyfan, i gynnal asesiadau athrawon cywir a chyson. Bydd angen i'r systemau a'r trefniadau hyn ganolbwyntio ar safoni mewnol a chymedroli sy'n cynnig modd i athrawon o fewn pob pwnc gadarnhau dealltwriaeth ar y cyd o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol yn seiliedig ar ddetholiad cytûn o waith dysgwyr a chefnogi sylwadau athrawon sy'n dangos y cysylltiadau â'r disgrifiadau lefel.

### Canllawiau ar weithredu'r ddyletswydd hon

Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hyn, rhaid i benaethiaid sicrhau bod athrawon o fewn eu hysgolion yn:

- cyflwyno trefniadau lle y gall athrawon sefydlu a chynnal dealltwriaeth ar y cyd o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol, gan ddefnyddio samplau o waith eu disgyblion i gynhyrchu set o enghreifftiau i'w cyfeirio atynt (gweithdrefnau safoni)
- cyflwyno trefniadau er mwyn i athrawon allu cymedroli asesiadau diwedd cyfnod allweddol ar gyfer detholiad o ddysgwyr unigol, a chymhwyso canlyniadau'r cymedroli mewnol hwn cyn pennu cyrhaeddiad diwedd cyfnod allweddol pob dysgwr yn derfynol (pob pwnc craidd/allgraidd)
- cadw tystiolaeth ddogfennol gryno o'r systemau a'r gweithdrefnau hyn, a'u cymhwysiad blynyddol, at ddibenion sicrhau ansawdd mewnol ac allanol
- cynnal adolygiadau blynyddol er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol parhaus i drefniadau presennol a bod gweithdrefnau'n adlewyrchu arferion gorau a pherchnogaeth uniongyrchol gan yr holl athrawon ar gyfer y pwnc.

### Cymedroli grŵp clwstwr

Rhaid i benaethiaid sicrhau'r canlynol **ar gyfer pob pwnc craidd**:

- Mae cyfarfodydd grŵp clwstwr ar gyfer pontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn cynnwys trefniadau pendant ar gyfer cymedroli samplau o waith dysgwyr wedi'u dewis gan y grŵp clwstwr.

Dylai'r trefniadau hyn ychwanegu gwerth at safoni a chymedroli mewn ysgolion drwy sicrhau bod arfer da o fewn y clwstwr yn cael ei adnabod, ei rannu ac yn cael ei adeiladu arno, er mwyn gosod agenda ar gyfer gwella sy'n adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol.

[1] Diffinnir safoni a chymedroli o fewn cyhoeddiad APADGOS: *Sicrhau cysondeb mewn asesiadau athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*, wedi'u cyhoeddi yn nhymor y gwanwyn 2008. Sylwer: Gellir dehongli'r gofynion hyn yng nghyd-destun amgylchiadau arbennig pob ysgol (e.e. mae'n bosib y bydd rhai ysgolion bach yn dymuno rhwydweithio ag athrawon o ysgolion cyfagos er mwyn dwyn ynghyd grŵp ymarferol o athrawon at ddibenion safoni/cymedroli mewn ysgolion).

**Canllawiau ar weithredu'r ddyletswydd hon**
Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hyn, rhaid i benaethiaid sicrhau bod:

- eu hysgolion eu hunain yn cael eu cynrychioli drwy ei gwneud yn ofynnol i athrawon gymryd rhan mewn cyfarfodydd clwstwr a chymedroli tystiolaeth ddethol o bob ysgol sy'n adlewyrchu addysgu a dysgu o fewn yr ysgol.

Mae canllawiau ymarferol, gan gynnwys astudiaethau achos o arfer da, ar weithredu cymedroli grŵp clwstwr yn cael eu darparu yng nghyhoeddiad APADGOS *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*, a anfonwyd i ysgolion yng ngwanwyn 2008.

**Cymedroli allanol ac ymweliadau ysgol gan ddilyswyr allanol**
Dechreuwyd cyflwyno cymedroli allanol o dystiolaeth sampl mewn ysgolion yn y flwyddyn ysgol 2006/07. Hyd yma, mae adrannau pynciau craidd a thua 25 y cant o adrannau pynciau allgraidd (o ysgolion a gynhelir) wedi derbyn adroddiadau gan gymedrolwyr allanol. Dylai gweithredu cenedlaethol ar gyfer yr holl adrannau pynciau allgraidd fod wedi'i gwblhau erbyn haf 2010.

O fis Medi 2008, bydd dilyswyr allanol hefyd yn dechrau ymweld ag ysgolion i ddilysu systemau a gweithdrefnau ar gyfer asesiad athrawon. O fewn y cyfnod Medi 2008 i Orffennaf 2010, dylai pob ysgol Cyfnod Allweddol 3 gael un ymweliad gan y dilyswyr ynghyd ag adroddiad adborth gan ddilyswyr.

Mae manylion am y model ar gyfer ymweliadau dilyswyr a'r meini prawf y bydd y dilyswyr yn eu defnyddio i roi gwybod i ysgolion wedi cael eu hanfon i ysgolion yn ystod Medi 2008.

**Canllawiau ar weithredu'r gofynion hyn**
Bydd penaethiaid eisiau sicrhau bod athrawon:

- yn darparu sampl o dystiolaeth pob adran pwnc ar gyfer cymedroli allanol, a chyflwyno, os oes angen, tystiolaeth bellach i'r cymedrolwyr allanol er mwyn gallu cadarnhau dealltwriaeth athrawon a'u cymhwysiad o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol
- cytuno i gael ymweliadau gan ddilyswyr allanol, a pharatoi'n briodol ar eu cyfer
- dilyn unrhyw gynlluniau gweithredu pellach a nodwyd yn adroddiadau cymedrolwyr/dilyswyr allanol, os yw'n gymwys, er mwyn cynorthwyo'r ysgol, mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Lleol ac APADGOS, i gryfhau a sicrhau asesiad athrawon mewn perthynas â'r systemau a'r trefniadau uchod.

**Sylwer:** Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu cymorth canolbwyntiedig i ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

# Asesiad athrawon

## Dyddiad allweddol 2009

12 Mai 'y dyddiad penodol ar y gofrestr'

## Disgyblion i'w hasesu

**Rhaid i bob un o'r disgyblion sydd yn eu blwyddyn olaf yng Nghyfnod Allweddol 3 yn y flwyddyn ysgol 2008/09 gael lefel asesiad athrawon ym mhob pwnc craidd ac allgraidd.**

O 2006, bu pob ysgol yn gyfrifol am adrodd canlyniadau pob disgybl sydd ar eu cofrestr ar yr ail ddydd Mawrth ym Mai, sef y 'dyddiad penodol ar y gofrestr'. **Yn 2009, 12 Mai fydd y dyddiad hwnnw**.

Caiff disgyblion sy'n symud ymlaen i Raglenni Astudio Cyfnod Allweddol 4 yn y flwyddyn ysgol nesaf eu hystyried fel eu bod ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 3. Mewn perthynas â systemau rheoli gwybodaeth (MIS) ysgolion, bydd y disgyblion hyn yn cael eu cofnodi fel rhai sy'n cael eu haddysgu yng ngrŵp blwyddyn 9 y cwricwlwm cenedlaethol; hyn, yn hytrach na dyddiad geni'r disgybl, sy'n nodi a ydynt yn gymwys am asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Dylid cymryd gofal i sicrhau y caiff yr wybodaeth hon ei chofnodi'n gywir ym MIS yr ysgol. Yn hynny o beth, er y bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn 14 oed, gallai rhai fod yn hŷn a gallai rhai gael eu haddysgu mewn dosbarth lle mae mwyafrif y disgyblion o oedran gwahanol. Rhaid i ddisgyblion gael eu hasesu'n statudol; hynny yw, rhaid iddynt gael asesiad athrawon diwedd Cyfnod Allweddol 3 unwaith yn unig.

## Pynciau[1] y mae asesiadau'n ofynnol ar eu cyfer

Mae'n ofynnol i athrawon wneud eu hasesiadau athrawon statudol ar ddiwedd y cyfnod allweddol ar gyfer pob disgybl sy'n gymwys yn y pynciau canlynol.

| |
|---|
| **Cymraeg iaith gyntaf neu Gymraeg ail iaith[2]** |
| **Saesneg** |
| **Mathemateg** |
| **Gwyddoniaeth** |
| **Ieithoedd tramor modern[3]** |
| **Dylunio a thechnoleg** |
| **Technoleg gwybodaeth** |
| **Hanes** |
| **Daearyddiaeth** |
| **Celf** |
| **Cerddoriaeth** |
| **Addysg gorfforol** |

Er mwyn diwallu gofynion statudol, rhaid i asesiad athrawon diwedd cyfnod allweddol gynnwys:

Ar gyfer pynciau gyda mwy nag un targed cyrhaeddiad:

- lefel ar gyfer **pob targed cyrhaeddiad**
- **lefel pwnc cyffredinol**, a geir trwy gyfrifo cyfartaledd lefelau'r targedau cyrhaeddiad mewn asesiadau athrawon yn unol â'r pwysiadau a roddir yn Atodiad A.

Dylid talgrynnu'r ffigurau i'r rhif cyfan agosaf (talgrynnwch haneri i fyny).

At ddibenion cyfrifo lefelau asesiad athrawon, dylid rhoi gwerth rhifiadol o 0 ar gyfer Gweithio tuag at lefel 1 a dylid rhoi gwerth rhifiadol o 9 ar gyfer Perfformiad Eithriadol. Ceir enghreifftiau yn Atodiad A.

[1] Bydd asesiad athrawon statudol diwedd Cyfnod Allweddol 3 yn digwydd yn haf 2009 ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9. Bydd y disgyblion hyn wedi cael eu haddysgu yn erbyn y cwricwlwm ysgol sy'n cael ei ddileu'n raddol.

[2] Mae'n ofynnol i ysgolion asesu disgyblion ar ddiwedd y cyfnod allweddol yn Saesneg a Chymraeg ail iaith neu Gymraeg iaith gyntaf a Saesneg. Dylid asesu disgyblion yn erbyn y rhaglen astudio berthnasol a gafodd ei dilyn, h.y. dylid asesu disgyblion sy'n dilyn y rhaglen astudio Cymraeg iaith gyntaf yn Gymraeg iaith gyntaf.

[3] Mewn achosion lle mae disgyblion yn astudio mwy nag un iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 3, rhaid i ysgolion benderfynu ar gyfer pob disgybl pa iaith ddylai gyfrif at ddibenion asesu statudol.

Ar gyfer pynciau gyda tharged cyrhaeddiad sengl:

- **lefel pwnc cyffredinol**.

## Codau asesiad athrawon dilys

Mae'r codau canlynol yn ddilys ar gyfer disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3:

- Cwricwlwm Cenedlaethol Lefelau 1–8
- E – Perfformiad Eithriadol
- D – Datgymhwyswyd o dan Adrannau 364–367 o Ddeddf Addysg 1996
- W – Gweithio tuag at Lefel 1
- N – ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwyso.

## Canllawiau ynglŷn ag asesu

Mae'r disgrifiadau lefel yng Ngorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol yn disgrifio'r math o berfformiad a'r ystod o berfformiad y dylai disgyblion sy'n gweithio ar lefel arbennig eu harddangos fel rheol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Y nod yw ffurfio barn gynhwysfawr sydd:

- wedi ei seilio ar wybodaeth am berfformiad y disgybl ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser
- yn ystyried gwahanol gryfderau a meysydd i'w datblygu ym mherfformiad y disgybl hwnnw
- yn cael ei gwirio yn erbyn y disgrifiadau lefel cyfagos er mwyn sicrhau mai'r lefel a ddyfernir yw'r un sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad/pwnc.

Er mwyn ffurfio barn gynhwysfawr am berfformiad disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad/pwnc, dylai barn athrawon gael ei seilio ar amrywiaeth o waith sy'n deillio o arsylwi ar/canlyniadau'r canlynol:

- gwaith ymarferol, llafar ac ysgrifenedig a wneir yn y dosbarth
- gwaith a wneir y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- asesiadau ysgol.

Dylai asesiad athrawon gael ei seilio ar dystiolaeth o gyrhaeddiad presennol ac nid ei seilio ar unrhyw ragamcaniadau o berfformiad disgyblion yn y dyfodol.

## Safoni a chymedroli mewn ysgolion

Dylai timau pwnc sicrhau bod eu hasesiad athrawon wedi'i seilio'n ddiogel ar ddealltwriaeth ar y cyd o'r safonau sydd wedi'u gosod yn y disgrifiadau lefel.

Bydd y ddealltwriaeth ar y cyd hon yn cael ei chyflawni trwy safoni a chymedroli'n fewnol ffynonellau cyfeirio cytûn a dynnwyd o waith disgyblion, ac sy'n adlewyrchu ystod y cyrhaeddiad yn yr ysgol. Os yw'r ysgol wedi derbyn adroddiadau cymedrolwyr/dilyswyr allanol, dylid eu defnyddio i lywio asesiad athrawon.

### Cymorth drwy adroddiadau cymedrolwyr/dilyswyr allanol i ysgolion

Trwy gyflwyno'r trefniadau yn raddol hyd at 2010, mae'n ofynnol i bob adran pwnc ddarparu tystiolaeth sampl o ddealltwriaeth a chymhwysiad ar y cyd athrawon o ddisgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Ar gyfer pob pwnc craidd/allgraidd, mae timau o gymedrolwyr allanol wedi cael eu sefydlu er mwyn cymedroli a yw pob adran pwnc yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol a darparu adroddiadau adborth i ysgolion.

Bydd y trefniadau a gyflwynwyd yn y flwyddyn gyfredol yn dod i ben yn 2010 ac erbyn hynny dylai pob adran pwnc Cyfnod Allweddol 3 fod wedi elwa ar adborth cymedrolwyr allanol a chymorth ychwanegol ac adborth trwy ymweliadau dilyswyr allanol.

### Cofnodi a chadw tystiolaeth

Mater i ysgolion benderfynu arno yw'r math o gofnodion, a'r ystod o gofnodion a gedwir i helpu'r asesiad athrawon. Nid yw'r cwricwlwm cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i gael trefniadau cymhleth ar gyfer cofnodi asesiadau a chadw tystiolaeth, ac nid oes eu hangen ychwaith i fodloni arolygiadau Estyn.

Ceir arweiniad ar gadw cofnodion effeithiol ynghyd â nifer o enghreifftiau o ffurfiau cofnodi yn y llyfryn *Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu: Cofnodi Cyfnodau Allweddol 1–3*, ACCAC, 2000. Ailddosbarthwyd hwn i ysgolion yn 2005.

Wrth gadw cofnodion, dylai ysgolion ystyried goblygiadau Deddf Diogelu Data 1998. Dylid trin gwybodaeth bersonol a meddygol yn sensitif.

**Deunyddiau cymorth**
Mae'r cyhoeddiadau canlynol wedi cael eu hanfon i ysgolion cyn hyn i gefnogi asesiadau athrawon:

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Saesneg Cyfnod Allweddol 3,* ACCAC, 2000
*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg Cyfnod Allweddol 3,* ACCAC, 2003
*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Mathemateg Cyfnod Allweddol 3*, ACCAC, 2003
*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 3*, ACCAC, 2001
*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg ail iaith Cyfnod Allweddol 3,* ACCAC, 2000

Er mwyn cynorthwyo athrawon i wneud dyfarniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol, cyhoeddodd ACCAC y deunyddiau canlynol.

*Celf: Enghreifftio Safonau, Cyfnod Allweddol 3*, ACCAC, 2000
*Cerddoriaeth: Enghreifftio Safonau, Cyfnod Allweddol 3,* ACCAC, 2000
*Addysg gorfforol: Enghreifftio Safonau, Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3,* ACCAC, 2000

Ailddosbarthwyd i ysgolion CD o'r deunyddiau enghreifftio safonau yn y pynciau craidd Cyfnodau Allweddol 1–3 (a gynhyrchwyd yn wreiddiol yn 1995) yn nhymor yr haf 2005.

Gellir defnyddio'r deunydd tasgau a phrofion dewisol a anfonwyd i ysgolion yn nhymor y gwanwyn 2007 hefyd i lywio asesiad athrawon.

Yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol, bydd APADGOS yn darparu deunyddiau enghreifftiol newydd ar gyfer pob maes pwnc i gefnogi cynllunio dysgu, addysgu ac asesu yn erbyn y cwricwlwm diwygiedig.

`

# Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3

Mae angen i athrawon mewn ysgolion Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 gytuno ar yr amser mwyaf priodol i drosglwyddo gwybodaeth asesu. Yn gyffredinol, ar gyfer asesiad athrawon, dylai hyn ddigwydd cyn diwedd y tymor cyn trosglwyddo.

Bydd cysylltiadau rhwng athrawon Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, a gosod targedau rhwng disgyblion ac athrawon ar ddechrau Blwyddyn 7 yn debygol o helpu i sicrhau parhad rhwng y ddau gyfnod allweddol.

**Cynlluniau pontio: Y cefndir cyfreithiol**
O ganlyniad i ddeddfwriaeth Cymru yn Neddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd partner lunio ar y cyd gynlluniau i hwyluso trosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Rhaid i'r cynlluniau amlinellu sut y bydd yr ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd partner yn cydweithio i sicrhau cysondeb wrth asesu, monitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Rhaid i gynlluniau pontio fod yn eu lle er mwyn cefnogi'r disgyblion Blwyddyn 6 hynny sy'n symud i'r ysgol uwchradd.

Cyhoeddwyd canllawiau i ysgolion ar y gofynion ar gyfer cynlluniau pontio yng Nghylchlythyr Rhif 30/2006 y Cynulliad Cenedlaethol. Dosbarthwyd *Canllawiau ar Baratoi Cynlluniau Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3* i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, AALlau a sefydliadau eraill â diddordeb (gweler www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau).

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu Estyn i ddarparu canllawiau amrywiol ar gynllunio ar gyfer pontio gan gynnwys manylion arfer da. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf *Effaith cynlluniau trosglwyddo. Arfarnu'r defnydd o gynlluniau trosglwyddo gan bartneriaethau ysgolion cynradd-uwchradd i wella ansawdd dysgu a safonau* ym mis Mehefin 2008. Gallwch weld yr adroddiad a'r adroddiadau cynharach a gynhyrchwyd gan Estyn fel rhan o'r gyfres *Symud Ymlaen* ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Fel rhan o'r rhaglen Anelu at Ragoriaeth ar gyfer codi safonau yng Nghyfnod Allweddol 3, cynhyrchodd ACCAC lyfryn yn dwyn y teitl *Pontio'r Bwlch* sy'n rhoi arweiniad i ysgolion cynradd ac uwchradd ynglŷn â datblygu a defnyddio unedau pontio i hwyluso trosglwyddo effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 a sut i gael parhad gwell mewn addysgu a dysgu ar adeg trosglwyddo. Dosbarthwyd y llyfryn hwn i ysgolion ym mis Tachwedd 2004.

**Cymedroli grŵp clwstwr ar gyfer pob pwnc craidd**
O fis Medi 2008, rhaid i drefniadau pontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 gynnwys cyfarfodydd cymedroli grŵp clwstwr sy'n canolbwyntio ar enghreifftiau o waith dysgwyr wedi'u dewis gan y grŵp clwstwr.

Bwriedir i'r trefniadau hyn ychwanegu gwerth at safoni a chymedroli mewn ysgolion drwy sicrhau bod arfer da o fewn y clwstwr yn cael ei adnabod, ei rannu ac yn cael ei adeiladu arno, er mwyn gosod agenda ar gyfer gwella sy'n adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol.

Mae cyhoeddiad APADGOS *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3* (2008) yn darparu astudiaethau achos.

**Deunyddiau cymorth**
*Effaith cynlluniau trosglwyddo. Arfarnu'r defnydd o gynlluniau trosglwyddo gan bartneriaethau ysgolion cynradd-uwchradd i wella ansawdd dysgu a safonau* (Estyn, Mehefin 2008. Mae'n cynnwys argymhellion wedi'u cyfeirio at ysgolion, awdurdodau addysg lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn www.estyn.gov.uk)

*Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3: Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, BBC Cymru/Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004 (cyfres o ddau fideo a llyfryn atodol. Ar gael gan BBC Cymru)

*Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3. Symud Ymlaen... Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004 (ar gael gan Estyn)

*Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3. Symud Ymlaen... Gwella Dysgu, Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004 (cyhoeddiad ar wefan Estyn)

*Arolwg o'r Gymraeg fel Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r Cyfnod Pontio*, Estyn, 2004

*Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3, Pontio'r Bwlch, Datblygu a defnyddio unedau pontio i gefnogi pontio effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*. Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004

# Atodiad A

## Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon

| Pwnc | Pwysiadau targedau cyrhaeddiad | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | Llafaredd (Cy1) | Darllen (Cy2) | Ysgrifennu (Cy3) | |
| | 4 | 3 | 3 | |
| Saesneg | Llafaredd (Sa1) | Darllen (Sa2) | Ysgrifennu (Sa3) | |
| | 1 | 1 | 1 | |
| Mathemateg | Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1) | Rhif ac Algebra (Ma2) | Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3) | Trin Data (Ma4) |
| | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Gwyddoniaeth | Ymholiad Gwyddonol (Gw1) | Prosesau Bywyd a Phethau Byw (Gw2) | Defnyddiau a'u Priodweddau (Gw3) | Prosesau Ffisegol (Gw4) |
| | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Cymraeg ail iaith | Llafaredd (CA1) | Darllen (CA2) | Ysgrifennu (CA3) | |
| | 3 | 1 | 1 | |
| Iaith dramor fodern | Gwrando ac Ymateb (IM1) | Siarad (IM2) | Darllen ac Ymateb (IM3) | Ysgrifennu (IM4) |
| | 1 | 1 | 1 | 1 |

**Enghraifft ar gyfer Cymraeg**
I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (47÷10 = 4.7). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 5.

| Targed cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysiad (b) | Lefel x Pwysiad (c) |
|---|---|---|---|
| Llafaredd (Cy1) | 5 | 4 | 20 |
| Darllen (Cy2) | 5 | 3 | 15 |
| Ysgrifennu (Cy3) | 4 | 3 | 12 |
| **Cyfanswm** | | **10** | **47** |

**Enghraifft ar gyfer mathemateg**
I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (18÷5 = 3.6). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 4.

| Targed cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysiad (b) | Lefel x Pwysiad (c) |
|---|---|---|---|
| Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1) | 4 | 1 | 4 |
| Rhif ac Algebra (Ma2) | 3 | 2 | 6 |
| Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3) | 4 | 1 | 4 |
| Trin Data (Ma4) | 4 | 1 | 4 |
| **Cyfanswm** | | **5** | **18** |

**Enghraifft ar gyfer mathemateg**
I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (29÷5 = 5.8). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 6.

| Targed cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysiad (b) | Lefel x Pwysiad (c) |
|---|---|---|---|
| Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1) | 9 | 1 | 9 |
| Rhif ac Algebra (Ma2) | 5 | 2 | 10 |
| Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3) | 5 | 1 | 5 |
| Trin Data (Ma4) | 5 | 1 | 5 |
| **Cyfanswm** | | **5** | **29** |

**Enghraifft ar gyfer Cymraeg**
I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (27÷10 = 2.7). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 3.

| Targed cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysiad (b) | Lefel x Pwysiad (c) |
|---|---|---|---|
| Llafaredd (Cy1) | W | 4 | 0 |
| Darllen (Cy2) | 5 | 3 | 15 |
| Ysgrifennu (Cy3) | 4 | 3 | 12 |
| **Cyfanswm** | | **10** | **27** |

**Enghraifft ar gyfer mathemateg**
I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (10÷2 = 5). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 5.

| Targed cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysiad (b) | Lefel x Pwysiad (c) |
|---|---|---|---|
| Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1) | 5 | 1 | 5 |
| Rhif ac Algebra (Ma2) | D | - | - |
| Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3) | N | - | - |
| Trin Data (Ma4) | 5 | 1 | 5 |
| **Cyfanswm** | | **2** | **10** |

# Atodiad B

## Datgymhwyso ac addasu

Anaml iawn y bydd angen datgymhwyso disgybl rhag asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol. Os datgymhwyswyd un targed cyrhaeddiad, gellir dal i gyfrifo lefel pwnc cyffredinol gan ddefnyddio gweddill y targedau cyrhaeddiad a'u pwysiadau fel y nodir yn Atodiad A. Ni ellir dyfarnu lefel pwnc os datgymhwyswyd mwy nag un targed cyrhaeddiad. Yn yr achos hwn, adroddir datgymhwyswyd ar gyfer y lefel pwnc cyffredinol.

Lle bo angen datgymhwyso disgybl o asesiadau athrawon gellir gwneud hyn drwy:

- **Adran 364** Deddf Addysg 1996, sy'n pennu y gall **datganiad disgybl o Anghenion Addysgol Arbennig** addasu neu ddatgymhwyso rhywfaint neu'r cyfan o'r cwricwlwm cenedlaethol
- **Adrannau 364–367** Deddf Addysg 1996, sy'n pennu y gall rhywfaint neu'r cyfan o'r cwricwlwm cenedlaethol gael ei **ddatgymhwyso dros dro** ar gyfer disgybl os yw'n amhriodol, am y tro, cynnig y cwricwlwm cenedlaethol fel y mae'n gymwys iddo/iddi ar hyn o bryd.

## Datgymhwyso dros dro

Ni fwriedir i ddatgymwysiadau dros dro o dan Reoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion Unigol) (Cymru) 1999 ddarparu eithriadau tymor hir rhag darpariaethau'r cwricwlwm cenedlaethol, ac ni fydd eu hangen, mae'n debyg, ond o dan amgylchiadau anghyffredin. Disgwylir i benaethiaid ddefnyddio'u pwerau cyfarwyddo yn sensitif ac yn gynnil. Dylai pob disgybl gael cyfle i elwa o'r cwricwlwm cenedlaethol, y mae ei fframwaith yn darparu cwmpas eang i athrawon ymdrin â holl ystod anghenion y disgyblion unigol heb fod angen gwneud trefniadau eithriadol. Ni ddylid ystyried datgymhwysiad dros dro ond pan fydd hi'n amlwg bod amgylchiadau neu ymddygiad presennol y disgybl yn golygu na all gymryd rhan yn llawn yn y cwricwlwm cenedlaethol a'i drefniadau asesu. Mae dau fath o ddatgymhwysiad dros dro y gall penaethiaid eu gwneud:

1. **Cyfarwyddyd cyffredinol** ar gyfer disgyblion sydd heb ddatganiad, neu nad oes angen datganiad ar eu cyfer, ond y mae angen, er hynny, eu datgymhwyso dros dro. Yn dilyn, ceir enghreifftiau lle

y gallai fod angen cyfarwyddiadau cyffredinol i ganiatáu eithriadau rhag agweddau ar y cwricwlwm cenedlaethol. Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr. Ni ddylid tybio ychwaith y bydd angen eithriadau dros dro ym mhob achos megis y rhai a restrir yma. O dan amgylchiadau prin yn unig y dylid ystyried eithrio dros dro. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Disgyblion sy'n cyrraedd o gyfundrefn addysg sydd mor wahanol fel bod arnynt angen cyfnod i ymaddasu i'r cwricwlwm cenedlaethol.
- Disgyblion sydd wedi treulio cyfnodau yn yr ysbyty, sydd wedi'u haddysgu gartref neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol ac y mae angen amser arnynt i ymaddasu.
- Disgyblion sydd, dros dro, â phroblemau emosiynol difrifol (oherwydd argyfwng teuluol efallai) ac y mae angen gwneud trefniadau mynediad ar eu cyfer.

2. **Cyfarwyddyd arbennig** ar gyfer disgyblion sydd, ym marn y pennaeth, ag angen tymor hir am eithriadau rhag y cwricwlwm cenedlaethol, neu addasiadau iddo, ac na ellir eu gwneud ond drwy gyfrwng datganiad o anghenion addysgol arbennig, a bod angen eithriad dros dro tra bo'r broses asesu neu ailasesu yn mynd rhagddi.

   Os bydd pennaeth o'r farn fod gan ddisgybl, neu ei bod yn debygol bod gan ddisgybl, anghenion addysgol arbennig sy'n golygu y byddai gofyn i awdurdod addysg lleol benderfynu ar y ddarpariaeth addysgol arbennig y dylid ei gwneud ar ei gyfer, boed ar y cychwyn neu ar ôl arolwg o'r datganiad presennol, fe allai fod yn briodol rhoi cyfarwyddyd arbennig.

   Mae'r gofynion hyn hefyd yn gymwys i gyfarwyddiadau a ddechreuodd fel cyfarwyddiadau cyffredinol ond sydd wedi'u hamrywio at ddibenion asesiad AAA. Yr AALl sy'n gyfrifol am asesu'r disgyblion yn eu hardal y mae angen neu y gall fod angen i'r AALl benderfynu ar ddarpariaeth addysgol arbennig i ateb eu hanghenion.

## Gweithdrefnau ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau

Cyn rhoi cyfarwyddyd, rhaid i'r pennaeth wneud y canlynol:

- trafod amgylchiadau ac anghenion y disgybl gyda'i rieni a'i athrawon
- ymgynghori â seicolegwyr addysg, swyddogion meddygol neu staff arbenigol eraill
- yn achos cyfarwyddyd arbennig, ymgynghori â'r AALl.

## Rhesymau dros y cyfarwyddyd

Rhaid i'r cyfarwyddyd:

- esbonio'r camau a gymerir
- nodi a yw'n gyfarwyddyd cyffredinol neu arbennig
- datgan pam y mae angen gwneud trefniadau eithriadol.

Yn ogystal, **yn achos cyfarwyddyd cyffredinol** rhaid iddo:

- gynnwys y rhesymau sy'n esbonio pam y mae amgylchiadau presennol y disgybl yn ei gwneud hi'n amhriodol parhau i gynnig darpariaethau'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n gymwys i'r disgybl ar hyn o bryd
- nodi sut mae'r amgylchiadau hyn yn debygol o gael eu newid dros gyfnod y cyfarwyddyd
- nodi sut y galluogir y disgybl i ymaddasu i'r gofynion hynny yn y cwricwlwm cenedlaethol sydd wedi'u haddasu neu eu codi yn ystod y cyfarwyddyd

**yn achos cyfarwyddyd arbennig**:

- rhaid iddo fod wedi bod yn destun ymgynghori â'r AALl
- rhaid iddo gynnwys y rhesymau sy'n esbonio pam, ym marn y pennaeth, y mae gan y disgybl, neu y mae'n debyg bod gan y disgybl anghenion addysgol arbennig sy'n gofyn am asesu neu newid datganiad presennol
- dylai gyfeirio at unrhyw weithdrefnau y mae'r ysgol wedi'u defnyddio i ddadansoddi a monitro anghenion ac anawsterau'r disgybl ac unrhyw gamau a gymerwyd i roi sylw iddynt, gan gynnwys unrhyw gymorth arbennig a gynigiwyd.

Nid oes angen i benaethiaid ddisgrifio, ar y cychwyn, gynlluniau i ailgymhwyso'r cwricwlwm cenedlaethol at y disgybl pe na bai datganiad yn cael ei wneud neu ei newid.

## Hyd cyfnod y cyfarwyddyd

Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd bennu pryd y bydd y trefniadau eithriadol yn dechrau ac yn gorffen, neu'r ffactorau a fydd yn penderfynu pryd y byddant yn gorffen. Ni chaiff cyfarwyddyd cychwynnol barhau mwy na chwe mis calendr.

Bydd unrhyw gyfarwyddyd yn dod i ben os tynnir enw disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol. Mater i bennaeth unrhyw ysgol y bydd disgybl o'r fath yn trosglwyddo iddi yw barnu pa anghenion sydd gan y disgybl a gwneud darpariaeth yn unol â hynny.

## Hyd cyfarwyddyd cyffredinol

Gall pennaeth bennu hyd byrrach yn nhermau misoedd calendr neu ryw ddigwyddiad arall os yw'n digwydd cyn y terfyn o chwe mis.

## Hyd cyfarwyddyd arbennig

Bydd yn dod i ben yn awtomatig cyn gynted ag y caiff y datganiad, os yw'n briodol, ei wneud neu ei newid, a dylid ei ddisodli gan y ddarpariaeth addysgol arbennig a bennir yn y datganiad hwnnw.

## Gwybodaeth sydd i'w darparu ynghylch cyfarwyddiadau

Rhaid darparu'r wybodaeth ganlynol ynghylch cyfarwyddiadau:

- Rhaid i benaethiaid roi cyfarwyddyd ysgrifenedig sy'n nodi a yw'r cyfarwyddyd yn un cyffredinol neu arbennig. Dylai'r llythyr nodi natur y ddarpariaeth wahanol a wneir ar gyfer y disgybl a pha mor hir y bydd y datgymhwysiad yn parhau, hyd at chwe mis ar y mwyaf.
- Rhaid cadw copi ohono yn yr ysgol gyda chofnodion addysgol y disgybl.
- Cyn gynted ag y rhoddir cyfarwyddyd, a chyn pen tri diwrnod ysgol beth bynnag, rhaid anfon copïau ohono at gadeirydd y corff llywodraethu, i'r awdurdod addysg lleol ac at o leiaf un o rieni'r disgybl fel y'u cofrestrwyd yn yr ysgol.
- Rhaid anfon copïau ohono drwy'r post dosbarth cyntaf a rhaid anfon copïau rhieni i'w cyfeiriad cofrestredig.
- Rhaid hysbysu'r rhieni ynghylch eu hawl i apelio.
- Os oes gan benaethiaid reswm dros gredu y gall rhiant ei chael hi'n anodd deall y cyfarwyddyd, rhaid iddynt gynnig cymorth priodol, er enghraifft drwy ddarparu dehongliad neu gyfieithiad o'r dogfennau, neu drefnu i'w trafod gyda rhieni.

## Y drefn ar gyfer ceisiadau ac apeliadau gan rieni

Gall rhieni ofyn i bennaeth roi cyfarwyddyd sy'n eithrio'u plentyn dros dro rhag y cwricwlwm cenedlaethol. Wrth ystyried ceisiadau posibl am gyfarwyddyd, mae angen dilyn y drefn ganlynol:

- Dylai penaethiaid drafod y ceisiadau gyda'r rhieni a cheisio datrys unrhyw anhawster heb orfod troi at weithdrefnau ffurfiol. Os bydd hynny'n methu, caiff y rhieni wneud cais ffurfiol naill ai ar bapur neu ar lafar i'r pennaeth. Rhaid iddynt roi rhesymau drosto.

- Rhaid i benaethiaid ymateb i geisiadau cyn pen pythefnos. Os derbyniant y cais, rhaid iddynt anfon copïau o'r cyfarwyddyd at y rhieni, y corff llywodraethu ac, os yw'n briodol, yr AALl.
- Os bydd y pennaeth yn penderfynu peidio â chaniatáu'r cais, rhaid iddo neu iddi ysgrifennu at y rhieni gan roi'r rhesymau dros ei wrthod, a manylion am hawl y rhiant i apelio. Rhaid anfon copïau o'r llythyr i'r corff llywodraethu ac, yn achos ysgol a gynhelir, i'r awdurdod.
- Os yw rhiant yn ei chael hi'n anodd deall y llythyr, oherwydd anhawster wrth ddarllen neu anhawster wrth ddeall yr iaith, dylai'r pennaeth wneud trefniadau priodol i'w esbonio neu drefnu cyfieithu'r llythyr lle bo angen.
- Os na fydd y pennaeth yn ymateb cyn pen pythefnos, mae gan y rhiant yr hawl i apelio i'r corff llywodraethu.
- Disgwylir i gyrff llywodraethu wrando ar apeliadau mor gyflym â phosibl; caniatáu cyflwyno sylwadau gan rieni, ynghyd â chyfaill iddynt os dymunant, yn ogystal â'r pennaeth; a chaniatáu i staff arbenigol fynychu'r cyfarfod os bydd angen.
- Gall y corff llywodraethu naill ai gadarnhau gweithred y pennaeth neu ei gyfarwyddo i gymryd unrhyw gamau eraill sydd, yn eu barn nhw, yn briodol. Rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu rhieni a'r pennaeth yn ysgrifenedig o'u penderfyniad.
- Os bydd rhieni yn parhau i fod yn anfodlon, gallant gyflwyno cwyn. Yn achos ysgolion a gynhelir, dylid gwneud hynny o dan drefniadau y cytunwyd arnynt gan yr AALl.

# Atodiad C

## Rhifau ffôn a chyfeiriadau cyswllt defnyddiol

| | | |
|---|---|---|
| **APADGOS Llinell gymorth Asesu**<br>Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu | 0800 083 6003<br>Rhadffôn | Ymholiadau ynglŷn â'r cwricwlwm, asesu a materion yn ymwneud â throsglwyddo CA 2/3 |
| **APADGOS Cangen Cyhoeddiadau**<br>Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu | 0870 242 3206<br>(cyfrwng Cymraeg)<br>0845 603 1108<br>(cyfrwng Saesneg) | Er mwyn archebu cyhoeddiadau |
| **APADGOS**<br>Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion | 029 2080 1368 | Ymholiadau ynglŷn â nawdd Ysgolion Gwell ar gyfer ysgolion a gynhelir |
| **APADGOS**<br>Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion | 029 2082 6014<br>NDC@cymru.gsi.gov.uk | Ymholiadau ynglŷn â chasglu data cenedlaethol |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru**<br>Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol | 029 2082 5968 | Ar gyfer ymholiadau data a dilysu |